


EICH ARDAL CHI. BETH SY'N BWYSIG?

ARDAL
BRO ABERFFRAW A BRO RHOSYR



ASESIAD O LESIANT GWYNEDD A MÔN

EISIAU
DWEUD
EICH
DWEUD?

Mae'r ddeddf newydd wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, gwasanaeth iechyd a Chyfoeth Naturiol Cymru.


Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd llai. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Yn ogystal â'r data sydd ar gael rydym hefyd eisiau gwybod beth rydych chi yn feddwl am eich ardal a'ch cymuned – yr hyn sy'n bwysig i chi, beth sy'n dda a beth sydd angen ei wella. **Bydd cyfle i chi leisio eich barn trwy fynychu un o'r sesiynau galw heibio lleol neu mewn holiadur ar-lein. Mae mwy o wybodaeth a dyddiad pob sesiwn leol i weld ar www.LlesiantGwyneddaMon.org.**

Bydd y cyfnod ymgynghori yma yn dod i ben ar y 31^{ain} o Ragfyr 2016. Y gobaith yw y bydd gan y Bwrdd ddarlun cliriach wedyn o'n cymunedau, beth sy'n bwysig i bobl yn yr ardal yma o Gymru, a sut gall y partneriaid gyd-weithio i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

DAETH DEDDF LLESIANT
CENEDLAETHAU'R
DYFODOL [CYMRU] I
RYM AR Y 1^{AF} O EBRILL
2016. PWRPAS Y DDEDDF
YW GWELLA LLES
**CYMDEITHASOL,
ECONOMAIDD,
AMGYLCHEDDOL
A DIWYLLIANNOL
CYMRU.**

DYMA'R WYBODAETH
RYDYM WEDI EI
GASGLU AR ARDAL BRO
ABERFFRAW A BRO
RHOSYR HYD YMA.
YDYCH CHI'N ADNABOD
Y DARLUN SYDD WEDI EI
GREU O'CH ARDAL CHI?

POBLOGAETH



PWY YW POBL ARDAL BRO ABERFFRAW A BRO RHOSYR?

Mae **8,663** o bobl yn byw yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr. Mae hyn tua **12%** o gyfanswm poblogaeth Ynys Môn.

O'i gymharu â gweddill yr ynys mae **llai o blant rhwng 5 a 15 oed** yn byw yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr, a **llai o bobl rhwng 30 a 39 oed**. O'i gymharu â'r patrwm oed ar draws Cymru, mae poblogaeth Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn sylweddol hŷn.

Dros y degawdau diwethaf mae nifer y bobl sy'n byw yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr **wedi tyfu** (16% rhwng 1981 a 2011). Mae hyn yn **uwch** na'r cynnydd sydd wedi bod ar Ynys Môn yn gyffredinol a Chymru gyfan dros yr un cyfnod (5% ym Môn ac 11% drwy Gymru).

Nid yw'r twf yma wedi bod yr un fath ym mhob grŵp oedran. Mae nifer y bobl dros 80 oed ym Mro Aberffraw a Bro Rhosyr wedi cynyddu **dros 150%** mewn 30 mlynedd. Ond mae gostyngiad yn nifer y plant dan 15 oed wedi bod yn yr un cyfnod.

Mae disgwyl i'r patrwm yma barhau dros yr 20 mlynedd nesaf gyda chynnydd o **80%** yn nifer y bobl **dros 80** oed ar draws Môn – ond mae'n debyg y bydd gostyngiad o 12% yn y boblogaeth dan 16 oed.



IAITH

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae **67%** o bobl Bro Rhosyr a Bro Aberffraw yn gallu siarad Cymraeg sef yr ardal gyda'r **canran uchaf** o ardaloedd Ynys Môn. Mae'r ganran wedi gostwng dros y degawdau diwethaf – yn 1981 roedd 78% o bobl yr ardal yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r gostyngiad yma yn yr ardal o 11% yn uwch na lefel Ynys Môn gyfan sydd wedi gweld gostyngiad o 5% yn yr un cyfnod.


Mae ffigyrau mwyaf diweddar yn nodi mai 46% o bobl Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol, o'i gymharu â 11% yng ngweddill Cymru.

CYNNYDD
80%
OEDRAN
80+

2016
POBLOGAETH
YNYS MÔN
70,000



2036
POBLOGAETH
YNYS MÔN
68,000



PA MOR WYRDD YW'R ARDAL?


Mae cyfraddau ail-gylchu wedi codi ym Môn dros y 4 mlynedd diwethaf. Erbyn hyn mae **59.5%** o wastraff sy'n cael ei gasglu o dai, busnesau a chanolfannau ailgylchu yn Ynys Môn yn cael ei aildefnyddio neu ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau biowastraff sy'n cael eu compostio.

Mae tipio slei bach yn uwch ym Môn na gweddill Cymru - gyda 25.3 achos o dipio yn cael ei adrodd i bob 1000 o'r boblogaeth o gymharu â 10.2.

Ôl-troed Carbon – mae'r data yn dangos bod **95%** o dai yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn berchen ar o leiaf un car neu fan, o'i gymharu a **82%** yn Ynys Môn a 77% yng Nghymru gyfan. Mae allyriadau carbon fesul pen o'r boblogaeth ar gyfer Môn yn **6.7kt CO₂** sydd ychydig yn uwch na lefel Cymru o **6.6kt CO₂**.

Mae newid yn yr hinsawdd yn achosi lefel y môr godi sy'n cyfrannu at y risg o lifogydd yn yr ardal. Yn Ynys Môn mae tua **970** o dai mewn perygl o lifogydd o fewn 4 ardal sydd wedi eu hadnabod o fod mewn perygl o lifogydd eithafol.

Ym Mro Aberffraw a Rhosyr mae tua 40 o dai o dan fygythiad o lifogydd mewndirol gan afonydd yn yr ardal.



PA MOR LÂN YW'N STRYDOEDD?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru'n Daclus. O'r strydoedd gafodd eu harchwilio yn yr ardal nid oedd yr un yn cyrraedd Gradd A, sef dim sbwriel na gwastraff. Roedd **50%** gyda dim mwy na thri eitem bach o sbwriel (Gradd B+) a **37%** ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff, gan eithrio rhai eitemau bach (Gradd B). Yn gyffredinol yn Ynys Môn mae'r strydoedd yn tueddu fod yn rhai Gradd B neu B+.



STRYDOEDD
GRADD B+
50%

AMGYLCHEDD NATURIOL


Mae nifer o gynefinoedd pwysig ar Ynys Môn sy'n cynnwys rhostir isel ac arfordirol, corstiroedd, coetiroedd, a pherthi hynafol, yn ogystal â rhai o'r twyni tywod mwyaf yng Nghymru. Dyma un o gadarnleoedd rhai rhywogaethau prin, fel y Fadfall Ddŵr Gribog, y Wiwer Goch, Dyfrgi, Llygoden Bengron y Dŵr a'r Frân Goesgoch. Mae cynlluniau gwarchod mewn lle ar gyfer pob un ohonynt.

Mae 1 o'r 6 gwarchodfa natur leol ar Ynys Môn yn yr ardal yma sef **Twyni Niwbwrch ac Ynys Llanddwyn**.

Mae'r creigiau ar Ynys Llanddwyn ymysg yr hynaf yng Nghymru – wedi eu creu tua 550 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Mae'r twyni yma hefyd yn bwysig iawn o ran bywyd gwylt ac yn gynefin i flodau tegeirian prin. Mae'r aber yn fan da i weld adar hirgoes, hwyaid a gwyddau mudol yn yr hydref a'r gaeaf.

Mae'r **wiwer goch** yn un o'r mamolion mwyaf prin yng Nghymru – mae prosiect mewn lle ar Ynys Môn ers blynyddoedd er mwyn cynyddu niferoedd. Bellach mae llawer i'w gweld yng **Nghoedwig Niwbwrch**.

Mae traeth **Llanddwyn** wedi ei wobrwyo gyda Baner Las sydd yn golygu ei fod ymysg y traethau gorau yn fyd-eang.



CYMDEITHASOL

IECHYD DA?

Yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr mae ychydig llai na **1,200** o gleifion wedi cofrestru fesul meddyg teulu. Mae hyn yn is na'r lefel ar gyfer lefel Ynys Môn sef **1,400**, ac yn sylweddol is na Chymru sy'n **1,600**.

Os ydych yn byw yn yr ardal hon mae'n debyg y byddwch yn aros ar gyfartaledd rhwng **7:09** a **9:42 munud** am ambiwlans i ymateb i achos ble mae bygythiad i fywyd.

Nid oes gwybodaeth benodol am iechyd poblogaeth Bro Aberffraw a Bro Rhosyr. Mae'r ystadegau sy'n cael eu cynnwys yn y llyfryn hwn ar gyfer Ynys Môn gyfan – ond yn rhoi syniad o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

Mae disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn Ynys Môn yn **78.7** oed, tra bod disgwyliad oes merch adeg ei geni yn **83** oed.

Yn Ynys Môn, mae'r bwlch mewn disgwyliad oes adeg geni merched a dynion, rhwng y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig yn sylweddol llai na'r bwlch ar lefel Cymru gyfan - cymaint a 75% yn llai i ferched a 30% yn llai i dynion.


Mae **58%** o oedolion Ynys Môn dros bwysau neu yn ordew – mae hyn yr un canran â phoblogaeth Cymru gyfan. Mae canran Ynys Môn wedi cynyddu o 3% ers 2011, tra bod ffigwr Cymru wedi aros yr un fath.

Yn Ynys Môn mae 32% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew – sy'n uwch na ffigwr Cymru o 26%.

Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmegu ac yfed alcohol. Mae **22%** o bobl 16 oed neu'n hŷn Môn yn dweud eu bod yn ysmegu a **38%** o bobl yn yfed **mwy na 5 gwydr bach o win, neu tua 3 pheint o gwrw**, ar y diwrnod yfed trymaf yn yr wythnos. Mae hyn yn debyg i weddill Cymru ac wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diweddar.

Mae cyfradd hunanladdiad yn Ynys Môn o 10.4 i bob 100,000 o'r boblogaeth y flwyddyn, yn is na chyfradd hunanladdiad Cymru sydd yn 12.2.

Ym Môn, mae cyfradd beichiogi merched yn eu harddegau sydd o dan 18 oed yn 23.6 fesul 1000 o ferched 15-17 oed. Mae hyn yn debyg i ffigyrau Cymru.



22%
O BOBL DROS
16 OED YN
YSMYGU



CADW'N DDIOGEL



Mae troseddau ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr fesul 1,000 o'r boblogaeth wedi gostwng o **71.6** i **57.4** rhwng 2011 a 2015. Mae hyn yn dilyn y patrwm cyffredinol ar gyfer Ynys Môn.

Mae ymddygiad gwrth-gymdeithasol ar ei lawr hefyd ond yn dal i gyfri am **35%** o'r holl droseddau yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr

Mae **81%** o bobl yn credu ei bod yn saff i blant chwarae tu allan yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan ydi **64%**.

Yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr mae **21** o achosion tân ar gyfartaledd y flwyddyn. Mae **10%** o'r achosion hynny wedi'u cychwyn yn fwriadol ac mae hyn ymysg yr isaf ar yr ynys. Mae'r canran o achosion bwriadol o fewn ardaloedd yn Ynys Môn yn amrywio rhwng **9%** a **42%**.

21
ACHOS TÂN

10%
YN FWRIADOL

CADW MEWN CYSYLLTIAD

Mae'r canran sydd â mynediad i fand-eang yn cynyddu yn flynyddol – erbyn hyn dim ond **2%** o eiddo yn Ynys Môn sydd heb fynediad o gwbl.

Ychydig dros 10% o gartrefi yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr sydd heb gar neu fan. Mae hyn y isel o gymharu â'r ffigwr ar gyfer Ynys Môn gyfan sef **18%**.

Yn ôl data cenedlaethol, mae ardal Bodorgan ymhlith y 10% o ardaloedd Cymru lle mae'n cymryd fwyaf o amser i deithio at wasanaethau sylfaenol fel fferyllfeydd, siopau bwyd a meddygfeydd.

Mae unigrwydd yn gyflwr sy'n effeithio ar bob oedran, ond mae pobl hyn yn fwy agored i risg. Yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr, o ystyried y gwahanol ffactorau sy'n cyfrannu at unigrwydd, mae'n debyg bod risg uwch i bobl dros 65 oed yn ardal Rhosyr. Mae'r risg yn is yn ardal Bodorgan.

HELPU'N GILYDD

Mae **12%** o'r boblogaeth yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn darparu o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl. Mae'r ffigwr yma yn debyg i ardaloedd eraill o Gymru ac Ynys Môn.



ECONOMI A GWAITH

O dan y mesur ar gyfer pa mor gryf a chynhyrchiol yw economi (sef Gwerth Ychwanegol Crynswth), mae economi Môn yn fwy gwan yn gyffredinol nag economi Cymru. Ond, mae economi Cymru gyfan yn wan o'i gymharu â'r Deyrnas Gyfunol.

Mae **27%** o bobl sydd mewn gwaith a heb unrhyw gymhwyster, yn gweithio yn y galwedigaethau elfennol yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr e.e. gweithio mewn siop, glanhau, casglu gwastraff, gweithio ar fferm. Hefyd o ran y rhai sydd heb gymhwyster o gwbl mae 25% yn gweithio fel gweithredwyr offer a pheiriannau yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr – dyma'r canran uchaf yn Ynys Môn.

O bobl yr ardal, sydd heb unrhyw gymhwyster mae 46% yn economaidd anweithgar – mae hyn yn golygu ddim yn gweithio nac yn chwilio am waith am amrywiol resymau. Mae'r ffigwr ychydig yn is na'r gyfradd ar draws Ynys Môn.

Yn y crefftiau medrus mae'r canran uchaf o bobl yn yr ardal yn gweithio, sef 25%. Mae 29% sydd â gradd neu debyg yn gweithio yn y maes proffesiynol, ffigwr sy'n debyg i'r patrwm ar draws gweddill Ynys Môn a Gwynedd.

Mae canran y bobl oed gwaith sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn is na ffigwr Ynys Môn. Ar ei uchaf y llynedd roedd **2.27%** o bobl 16-64 oed yn hawlio'r lwfans, ac **1.69%** ar ei isaf -. Nid yw ffigwr Ynys Môn yn gostwng yn is na **2.96%**, ac mae'n gyffredinol uwch na Chymru. Ar unrhyw adeg, mae o leiaf **2.15%** o bobl 16-64 oed Cymru gyfan yn hawlio'r lwfans.

Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yn Ynys Môn yn uwch na Gwynedd ac yn debyg iawn i'r lefel yng Nghymru. Mae **65%** o gwmnïau yn Ynys Môn yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd. Mae hyn yn uwch na lefelau Cymru sydd â **60%**. Mae cyfradd o'r busnesau sydd yn dod i ben hefyd yn uwch yn Ynys Môn (8%) na Gwynedd (7%), ond ychydig yn is na Chymru (9%).

Amaeth yw'r sector mwyaf yn yr ardal yma - mae'n cyfri am **29%** o gyflogwyr. Y nesaf ato yw'r sector adeiladwaith sydd ar 14%.

Mae **15%** o'r boblogaeth 16 oed a throsodd sydd mewn gwaith yn gweithio o adref, sy'n uwch na ffigwr Ynys Môn a Chymru. Mae **40%** o'r boblogaeth dros 16 oed sy'n gweithio'n ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr, yn teithio mwy na chwe milltir i'w gwaith.

Canolrif cyflog wythnosol yn Ynys Môn yw tua **£422 yr wythnos**, sydd **8% yn uwch** na chanolrif cyflog trwy Gymru gyfan (£386 yr wythnos). Mae cyflogau merched **27% yn llai** na chyflog dynion yr ynys, ond mae'r bwlch yma yn is na'r bwlch ar gyfer Cymru gyfan sy'n 33%.

£422

YW CANOLRIF CYFLOG WYTHNOSOL YN YR ARDAL

65%

O GWMNIAU MEWN BUSNES AM 3 BLYNEDD+





SGILIAU AM OES

Mae **58%** o ddisgyblion ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn cael 5 **A*** i **C** yn eu harholiadau TGAU mewn pynciau sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg – mae hyn yn uwch na ffigwr Ynys Môn o **57%**, a'r ffigwr Cymreig o 58%.

O'r rhai sy'n cael y 5 A* i C mae bwlch o **28%** rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n derbyn pryddau ysgol am ddim a'r rhai sy'n talu. Mae hyn yn cymharu â bwlch o **25%** gyfer Ynys Môn i gyd, a **33%** ar draws Cymru gyfan.

Yn Ynys Môn 2.2% o'r bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol sy'n peidio â pharhau mewn addysg uwch neu bellach, ddim yn mynd ymlaen i hyfforddiant nac yn cael swyddi. Mae hyn yn is na'r ffigwr Cymreig o **2.8%**.

Mae gan **28%** o boblogaeth ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr gymhwyster gradd neu debyg, sy'n uwch na'r ffigwr gyfer Ynys Môn a Chymru. Tua chwarter o bobl yr ardal hon sydd heb gymhwyster o gwbl – tebyg i ardaloedd eraill o Ynys Môn a Chymru.




YR ARIAN YN EICH POCED

Mae arian sydd ar gael i'w wario ar ôl trethi a chostau talu am gartref gan bobl ym Môn, yn **£16,238** y pen y flwyddyn, sy'n £936 yn uwch na Chymru gyfan.

Yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr, mae **10.8%** o ddisgyblion yr ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim – dyma'r ail isaf o ardaloedd Ynys Môn. Fel arfer, erbyn i ddisgyblion gyrraedd ysgol uwchradd, mae'r ffigwr yn gostwng, ond mae'n codi yn Bro Aberffraw a Bro Rhosyr i **12.1%**.

Mae **18%** o aelwydydd yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr mewn tlodi tanwydd, sy'n uwch na'r ffigwr Cymreig o 14%. O'r holl gartrefi yn yr ardal, mae **6%** heb wres canolog – uwch na'r cyfartaled yn Ynys Môn (5%) a thair gwaith yn uwch na gweddill Cymru.

Mae pris canolrif eiddo yn ardal Bro Aberffraw a Bro Rhosyr yn **£138,000**. Yn yr ardal yma, mae canolrif incwm aelwydydd yn **£24,782**, ond mae angen £31,429 i fforddio prynu tŷ ar bris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod **62.2%** o aelwydydd Bro Aberffraw a Bro Rhosyr wedi eu prisio allan o'r farchnad.



CADW'N HEINI

Mae **46%** o ddisgyblion Ynys Môn wedi ymweld â chanolfan hamdden – sy'n uwch na lefel Cymru o 42%, ond yn is na Gwynedd sydd ar 53%. Mae **50%** o blant Ynys Môn hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos – mae hyn yn cymharu â 48% yng Nghymru.

Mae **37%** o oedolion yn Ynys Môn yn dweud eu bod yn actif am **o leiaf 30 munud** ar bump neu fwy achlysur mewn wythnos – mae hyn yn uwch na lefel Cymru o 31%, ond yn debyg iawn i Gwynedd. Mae'r canran yma wedi codi yn raddol dros y blynyddoedd diwethaf.



37%
O OEDOLION YN
CADW'N ACTIF AM
O LEIAF 30 MUNUD
5 GWAITH YR
WYTHNOS



AMSER HAMDDEN

Mae **60%** o oedolion yn Ynys Môn wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn, gyda **34%** wedi ymweld ag amgueddfa a **57%** wedi ymweld â llefydd hanesyddol. Mae hyn yn debyg i Wynedd a gweddill Cymru.

57%
WEDI
YMWELD
Â LLE HANESYDDOL



AM FWY O
WYBODAETH...

WWW.LLESIANTGWYNEDDAMON.ORG
01766 771000

Gofynnwch am
Rheolwr Partneriaeth Gwynedd a Môn